# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL DYDD GWENER, 12 MEHEFIN 2015

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Eryl Jones Williams (Cadeirydd) Y Cynghorwyr Annwen Hughes a Louise Hughes

**Swyddogion:** Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr), Heilyn Williams (Swyddog Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Hefyd yn Bresennol:** Cyng Dilwyn Morgan (cefnogi cais yr ymgeisydd),

## 1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cynghorydd Eryl Jones Williams. Cyflwynwyd y panel ar swyddogion i bawb oedd yn bresennol. Llongyfarchwyd Mr Heilyn Williams ar ei benodiad fel Maer Dolgellau.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Sheryl Le Bon, Rheolwr Trwyddedu

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

## 5. CAIS AM DRWYDDED HACNI/HURIO PREIFAT

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr Ac am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat o'r newydd. Eglurwyd bod datganiad o gollfarnau yn cyfeirio at drosedd perthnasol ac felly gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DAS, ac yn unol â'r canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais. Cydnabuwyd bod y drosedd a ddatgelwyd wedi digwydd o fewn y tair blynedd diwethaf ac nad oedd unrhyw dystiolaeth o broblemau ers hynny. Tystiwyd bod yr ymgeisydd wedi gwneud dros 80 awr o wasanaeth cyhoeddus am ei drosedd. Ymhelaethwyd bod yr ymgeisydd wedi cael cynnig gwaith i drosglwyddo plant yn ystod tymor yr ysgol. Derbyniwyd cefnogaeth i'r cais ar lafar gan ei Aelod Lleol ac fe gydnabuwyd dau lythyr yn mynegi geirda i'r ymgeisydd gan Gynghorydd lleol arall a rhiant lleol.

Ymneilltuodd yr ymgeisydd a'i gefnogwr o'r ystafell tra y bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

Ar ôl ystyriaeth fanwl, penderfynodd yr Is-bwyllgor bod yr ymgeisydd yn berson addas i gael trwydded yrru, a chaniatawyd y cais. Teimlai'r Is-bwyllgor i'r ymgeisydd gydnabod difrifoldeb y drosedd a'i fod yn edifarhau

**PENDERFYNWYD caniatáu cais Mr A am drwydded hacni/hurio preifat.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r Uned Trwyddedu yn anfon llythyr i'r ymgeisydd yn cadarnhau penderfyniad yr Is-bwyllgor.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y.b. a daeth i ben am 11.30 y.b.

**CADEIRYDD**